



Cyfarfod gyda'r Iesu Byw Galar a Gobaith – neges yr atgyfodiad

Wrth ddarllen yr 20fed bennod o Efengyl Ioan, cawn ymgais ganddo i ddarlunio profedigaeth Mair Magdalen wedi iddi gollu un oedd mor annwyl yn ei golwg. Dyma'r un oedd wedi ei gwaredu o'r saith cythraul oedd yn ei blino. Bu'n ffyddlon i'w Gwaredwr, arhosodd gydag ef wrth odre'r groes. Yn fore, tra roedd hi eto'n dywyll aeth at ei fedd, yn eiddgar i gyflawni ei chymwynas olaf iddo trwy weinio ei gorff, ond gwelodd fod y garreg wedi ei thynnu ymaith a chorff ei Harglwydd wedi diflannu. 'Ei dawn i wylu yw gwerth dynoliaeth,' meddai Dic Jones. Wylu'n hidil a wnaeth Mair hithau yn ei galar.

Dadrithiad

Profiad erchyll yw gweld rhywun annwyl yn dioddef ac yna'n marw'n ifanc. Onid oedd Iesu Grist yn bopeth i Mair? Trwyddo cafodd iechyd newydd a chyfeiriad newydd i'w bywyd, ond dadrithiwyd hi wrth weld ei arthau ar y groes, ac fe'i dadrithiwyd ymhellach gerllaw ei fedd gwag.

Saunders Lewis sy'n rhoi mynegiant i'w profiad:

'Dacw hi yn yr ardd ar glais y wawr;
Gwthia'i golygon tua'r ogof; rhed
Rhed at ei gweddill gwynfyd, Och,
a gred,
A gred hi i'w llygaid? Fod y maen
ar lawr,

A'r bedd yn wag, yn fud a moel;
Yr ehedydd cynta'n codi dros y foel
A nyth ei chalon hithau'n wag a siêd.'

Hurtiwyd hi, drylliwyd hi. Ymsuddodd yn ei gwae.

Trawsnewidiad

Yn ei dagrau plygodd Mair gan edrych i mewn i'r bedd, a chlywodd leisiau angylion yn gofyn iddi, pam ei bod yn wylu? Eglurodd hithau, 'Y maent wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd....' Wedi iddi ddweud hyn troes yn ei hŏl a gwelodd Iesu'n sefyll yno ond heb ei adnabod.

Gofynnodd yntau iddi, 'Wraig pam yr wyt ti'n wylu? Pwy wyt ti'n ei geisio?' Gan feddwl mai'r garddwr ydoedd holodd ble yr oedd wedi rhoi ei Harglwydd i orwedd, er mwyn iddi hi gael gofalu amdano. Ymatebodd Iesu trwy lefaru ei henw, 'Mair' ac meddai hithau wrtho yntau 'Rabbwni,' – hynny yw, Athro. Gallwn ddychymgu mor awyddus oedd Mair i'w gofleidio, ond meddai Iesu wrthi 'Paid â

fyd gofod ac amser mwyach. Fel y dywedodd y Canwriad wrth Procula, gwraig Peilat, yn nrama John Masefield *Treial Iesu*: '... y mae wedi ei ollwng yn rhydd F'Arglwyddes, lle all na Rhufeiniwr nac Iddew atal ei wirionedd.'

Rhaid oedd i Mair beidio â glynu wrth y gorffennol ond yn hytrach cofleidio'r presennol a'r dyfodol yng nghwmni 'Tywysog y bywyd. Gorchfygwr y bedd,' chwedl I. D. Hooson. Doedd ryfedd felly iddi ddychwelyd at y disgyblion i gyhoeddi, 'Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd.'

Trawsnewidiwyd ei galar trwy ei chymundeb â'r Crist byw, yr un a addawodd, 'Byddwch chwi yn fy ngweld, fy mod yn fyw, a byw fyddwch chwithau hefyd.' (Ioan 14:20)

Argyhoeddiad

Cofiaf wrando flynyddoedd lawer yn ôl ar Syr Norman Anderson, Athro yn y Gyfraith o Brifysgol Llundain, ac yntau yn darlithio ar yr atgyfodiad. Gŵr o allu ac o argyhoeddiad mawr ydoedd fel y dengys ei waith ysgrifenedig megis *The evidence for the Resurrection*. Wedi'r ddarlith gofynnodd rhywun iddo, pa wahaniaeth a wnaeth yr atgyfodiad iddo ef yn bersonol? Atebodd trwy ddweud, 'Collasom ein mab, Hugh, yn dair a'r hugain oed o'r canr. Roedd yn llywydd y Myfyrwyr ym mhrifysgol

Caergrawnt. Mae atgyfodiad ein Harglwydd yn profi bod gennym Dduw da, ac nid gan afiechyd na marwolaeth y mae'r gair olaf. Cawn weld Hugh eto rhyw ddydd.'

Roedd profiad Mair yn eiddo iddo yntau. Yn eu galar daeth yr atgyfodiad â gobaith i'r ddau ohonynt.

'Cododd Iesu!
Nos eu trallod aeth yn ddydd.'

*Y Parch Eric Jones, Bangor.
Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd*



Gan Gian Girolamo Savoldo
vwHjk7Hk3NKAow at Google Cultural Institute, zoom level maximum, Public Domain,
<https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=13360813>

glynu wrth yf oherwydd nid wyf eto wedi esgyn at y Tad...! Onid oedd am fynd i baratoi lle yn y tŷ y mae iddo lawer o drigfannau? (Ioan 14:2)

Na, doedd yr union berthynas a fu rhyngddynt ddim yn bosibl mwyach, ni ellid troi'r cloc yn ôl. Mae marwolaeth yn newid cymaint o bethau, erys y galar, ac nid yw'r atgyfodiad yn atal y dagrau. Na, cynnig bywyd ar lefel arall a wna'r atgyfodiad. Nid yw'r Pasg yn diddymu galar, ond y mae'n ei drawsnewid trwy ddangos nad yw Iesu'n cael ei gyfyngu i